The Eurekas
A Limit Less Challenge

# The Eurekas 2023
# Pecyn Cymorth

IOP Institute of Physics

# Pecyn cymorth 'The Eurekas' 2023

Diolch am lawrlwytho pecyn cymorth 'The Eurekas' 2023!

## Beth yw 'The Eurekas'?

Cystadleuaeth flynyddol ym maes ffiseg yw 'The Eurekas', ar gyfer myfyrwyr 11-16 oed yn y DU ac Iwerddon, er mwyn arddangos gwerth ffiseg ac ysbrydoli myfyrwyr i feddwl yn wahanol am ffiseg. Mae'n rhan o'r ymgyrch Torrwch y Ffiniau sydd wedi'i greu gan y Sefydliad Ffiseg i ehangu'r ystod o bobl sy'n astudio ffiseg ar ôl troi'n 16 oed a sicrhau bod yr ystod honno o bobl yn fwy amrywiol.

Gall unrhyw fyfyriwr gymryd rhan, a chaiff ceisiadau gan grwpiau eu croesawu'n fawr. Bydd pob cais sy'n bodloni'r meini prawf yn cael ei dderbyn.

Bydd panel ysbrydoledig o feirniaid yn dewis y ceisiadau gorau, a bydd un enillydd cyffredinol yn cael **£1,000/€1,200** yn ogystal â **£250/€300** i'w ysgol. Bydd y ddau sy'n ail yn cael **£500/€600** yr un, a bydd chwe gwobr o **£250/€300** yn cael eu dyfarnu i gais rhagorol gan rywun o bob oedran, o 11 i 16.

The Eurekas
A Limit Less Challenge

## Pam y mae’r gystadleuaeth yn bodoli?

Mae ‘The Eurekas’ yn gystadleuaeth sydd yn ei hail flwyddyn erbyn hyn. Fe’i crëwyd i hyrwyddo’r ymgyrch Torrwch y Ffiniau a **dod â ffiseg yn fyw mewn ffordd sy’n berthnasol i bobl ifanc** fel bod y pwnc yn teimlo’n fwy cynhwysol a bod ganddo lai o ffiniau. Y nod yw sicrhau bod y byd ffiseg maes o law’n dod yn **fwy amrywiol**, yn cyfleu **dyfnder profiad sy’n fwy cyfoethog** ac yn arddangos **cymuned sy’n fwy cynhwysol**.

I’r perwyl hwnnw, mae angen i ni chwilio mewn mannau na fyddem wedi chwilio ynddynt fel rheol efallai. Drwy greu cystadleuaeth sy’n dathlu creadigrwydd, diwylliant, cydweithio, amrywiaeth a gweithgarwch sy’n seiliedig ar themâu ffiseg, rydym yn gobeithio ennyn diddordeb myfyrwyr yn gynnar, na fyddent wedi ymddiddori mewn ffiseg o’r blaen efallai, a dangos iddynt nad yw’n rhy hwyr; oherwydd **ni ddylai unrhyw fyfyrwyr sy’n frwdfrydig ynghylch ffiseg ac sy’n dangos potensial ym maes ffiseg deimlo nad yw’r pwnc yn addas iddyn nhw**.

Rydym am ddenu myfyrwyr sydd ag ystod eang o ddiddordebau, boed mewn celf, chwaraeon, cerddoriaeth neu lenyddiaeth ac iaith, ac rydym am ddal eu sylw mewn ffordd wahanol.

The Eurekas
A Limit Less Challenge

Gall y cais fod ar unrhyw ffurf, a rhaid ei fod yn ateb y cwestiwn:

## Sut y mae ffiseg yn bwydo eich brwdfrydedd?

# Beth yr ydym yn gofyn i fyfyrwyr ei wneud?

P'un a yw'r cais ar ffurf fideo, recordiad sain, darn o gelf, cerflun neu hyd yn oed ddarn o farddoniaeth, bydd Torrwch y Ffiniau yn ystyried pob cais ac yn gwrando ar bob cais a gyflwynir drwy wefan '**The Eurekas**'.

Rydym am weld ceisiadau sy'n dangos y myfyrwyr yn rhyngweithio â ffiseg mewn modd creadigol sydd efallai'n annisgwyl. Mae pawb yn frwdfrydig ynghylch rhywbeth. Efallai eu bod yn frwdfrydig ynghylch celf, chwaraeon, cerddoriaeth, gemau cyfrifiadurol neu rywbeth arall – bydd ffiseg yn rhan fawr o'r modd y mae'n digwydd. Neu efallai eu bod yn wirioneddol frwdfrydig ynghylch mater neu achos penodol – boed yn fater byd-eang neu'n fater y maent yn ei wynebu o ddydd i ddydd. Rydym am iddynt ystyried sut y mae ffiseg yn rhan o'r ateb. Neu efallai eu bod yn edmygu rhywun enwog – bydd ffiseg wedi helpu'r unigolyn hwnnw i gyrraedd y man lle mae heddiw.

**Rydym am i'r myfyrwyr benderfynu beth y maent fwyaf brwdfrydig yn ei gylch, a dangos i ni wedyn pa ran y mae ffiseg yn ei chwarae ynddo.**

The Eurekas
A Limit Less Challenge

## Sut mae cymryd rhan

Y llynedd, roeddem wrth ein bodd o gael cannoedd o geisiadau a ddangosodd i ni fod pobl ifanc yn llawn creadigrwydd a syniadau. Ac mae gan gymaint ohonynt ddawn naturiol ym maes ffiseg – nad oeddent efallai wedi sylwi arni nes iddynt gymryd rhan yng nghystadleuaeth 'The Eurekas'.

Eleni, gyda thema newydd sbon a gwobrau mwy hael i'w hennill, rydym am ehangu'r gystadleuaeth fel bod mwy o fyfyrwyr ar draws y DU ac Iwerddon yn gallu cymryd rhan ynddi a dechrau meddwl yn wahanol am ffiseg – fel pwnc sy'n gallu bod yn greadigol, yn gydweithredol, yn weithredol ac yn ymarferol hefyd.

Byddem yn hynod o falch pe baech yn gallu **sôn wrth eraill am** 'The Eurekas', drwy rannu gwybodaeth am yr ymgyrch ar draws eich sianelau ar-lein. Mae gennym ddeunyddiau gwych y gallwch eu lawrlwytho a'u rhannu:

- Negeseuon a awgrymir ar gyfer cyfryngau cymdeithasol
- Graffeg sy'n barod i'w defnyddio ar gyfer Facebook, Twitter, LinkedIn ac Instagram
- Fideo 'The Eurekas' 2023

A byddem yn ddiolchgar pe baech yn annog aelodau eich rhwydwaith i ymuno â ni hefyd drwy ofyn iddynt:

- **Gofrestru i gael ein llythyr newyddion**
- **Dilyn cyfrifon y Sefydliad Ffiseg ar gyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter, LinkedIn, Instagram)**



Mae croeso i chi gysylltu â ni yn campaigns@iop.org os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech sefydlu partneriaeth yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol.

Ewch i www.theeurekas.co.uk i gael rhagor o wybodaeth am 'The Eurekas'.

Published **2023**